Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

grantiau a thrwyddedau
grants and licences

COETIROEDD GWELL I GYMRU

BETTER WOODLANDS FOR WALES

CYLCHLYTHYR TECHNEGOL **Rhifyn 10 – Hydref 2007**

Cynnwys:

- Nodyn y golygydd
- Ffioedd cyfuno Arbenigwyr
- Materion sefydlogrwydd CGG
- GIS a chyfuno mapiau digidol
- GLOS yn rhyddhau diweddariad
- Cyfrifydd GGC
- Ffurflenni cais y Cynllunwyr Rheoli a'r Aseswyr Arbenigol
- Gweinyddu CGC
- Manylion cwsmeriaid
- Cyhoeddiadau Grantiau a Thrwyddedau newydd a diwygiedig
- Cyhoeddiadau newydd gan Ymchwil Coedwig
- Manylion cyswllt
- Dyddiadau rhifynnau

Nodyn y golygydd

Unwaith eto gwnaethpwyd cynnydd da gyda CGG y mis hwn gyda dros 80 o gynlluniau wedi'u cymeradwyo gan gwmpasu oddeutu 2,000 o hectarau. Mae gwaith eisoes wedi dechrau i ddatrys y materion ansefydlogrwydd ac rydyn ni'n gobeithio y bydd hyn yn gyflawn erbyn y Nadolig. Mae newyddion da i Arbenigwyr gyda chyflwyno ffioedd cyfuno a chyfle i gynllunwyr elwa ar gymhellion ariannol a anelir at gynyddu nifer y cynllunwyr sy'n defnyddio Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol / GIS a mapiau digidol. Erbyn hyn mae'r sgriniau plannu mawr eu disgwyl wedi'u rhyddhau ac mae dogfen newydd 'Ymagwedd at Blannu Newydd' ar gael ar ffurf ddrafft a bydd ar y we'n fuan iawn.

Ffioedd cyfuno arbenigwyr

Gyda diwedd Ffioedd Cyfuno Math 1 a chyflwyno Ffioedd Atodol i Gynllunwyr, mae CCC wedi bod yn ystyried cyfuno Arbenigwyr. Mae CCC yn awyddus iawn i gadw Arbenigwyr yn gytûn â CGG ac adnabod eu pwysigrwydd at y cynllun, a'r gwaith maen nhw wedi'i wneud wrth fynychu hyfforddiant a dod yn gyfarwydd â'r asesiadau. Felly rydyn ni wedi penderfynu cynnig Ffioedd Cyfuno Arbenigwyr.

Yn ogystal â hynny, mae'r Grŵp Technegol wedi ystyried rôl yr Ecolegwyr a phenderfynu y byddai'n briodol cynnig ffioedd ychwanegol i'r grŵp hwn. Mae hyn oherwydd mai Ecolegwyr yw'r grŵp mwyaf o Arbenigwyr nad oedd yn gymwys i dderbyn ffioedd cyfuno blaenorol – nid yw'r rhan fwyaf o Ecolegwyr yn Gynllunwyr cymeradwyedig ac felly ni fuont yn gymwys i dderbyn Ffioedd Cyfuno Cynllunwyr. Hefyd, rhoddwyd baich ychwanegol ar Ecolegwyr eleni wrth gyflwyno deddfwriaeth rhywogaethau a ddiogelir dan gyfraith Ewrop (EPS) newydd ac mae gofyn i bob Ecolegwr fynychu diwrnod ychwanegol o hyfforddiant. Fe fydd manylion yn cael eu danfon allan cyn bo hir

Pwysig! Mae'n rhaid i Gynllunwyr ac Arbenigwyr eu hunain hawlio ar gyfer unrhyw fath o ffi gyfuno ac ni fydd CCC yn cysylltu â Chynllunwyr nac Arbenigwyr yn hyn o beth. Y dyddiad cau ar gyfer hawlio pob math o ffi gyfuno yw 31 Mai 2008 ac ni dderbynnir ceisiadau ar ôl y dyddiad hwn, ni waeth pryd cwblhawyd cynllun neu asesiad. Dylid anfon pob anfoneb at swyddfa Clawdd Newydd.

Sonia Jones – Cynllun cyntaf gorau ar gyfer Troserch

Graham Heath – Cynllun mawr/cymhleth gorau ar gyfer Glynsaer

Julian Miller - Safon gorau ar y cyfan dros amrywiaeth o gynlluniau.

Materion sefydlogrwydd CGG

Mae'n anffodus bod blwyddyn gyntaf CGG wedi'i rhwystro gan faterion sefydlogrwydd Grantiau a Thrwyddedau Ar-lein. Mae'n ddrwg iawn gan CCC am y problemau hyn ac rydyn ni'n gwybod eu bod wedi achosi llawer o rwystredigaeth. Rydyn ni wedi bod yn gweithio'n galed i sicrhau y datrysir y materion ac erbyn hyn rydyn ni wedi cytuno ar gynllun gweithredu gyda thîm Tŷ Silvan sy'n gyfrifol am y system. Mae'r weithred yn dechrau ar unwaith ac yn cynnwys mynd trwy bob elfen o'r system yn drefnus i adnabod diffygion. Bydd uwchraddiadau caledwedd. Dylai rhan helaeth y gwaith fod wedi'i wneud erbyn y Nadolig.

GIS a chyfuno mapiau digidol

Mae CCC wedi bod yn ystyried cynllunwyr yn defnyddio mapiau digidol fel rhan o CGG ac wedi dod i'r casgliad bod arbedion posibl i CCC a Chynllunwyr o'u defnyddio.

Yng ngoleuni hyn mae CCC wedi penderfynu cyflwyno Ffioedd Cyfuno GIS i annog cynllunwyr i symud at ddefnyddio mapiau digidol. Gellir hawlio'r arian sydd ar gael yn ôl ar gyfradd ad-dalu o **£750 y cynllun am y ddau gynllun cyntaf** sy'n cael eu cyflwyno a'u cymeradwyo lle defnyddiwyd mapiau digidol a bodlonwyd y safonau cywir. **Byddai pob cynllun dilynol** sy'n cael ei gyflwyno yn defnyddio mapiau digidol o'r safon gywir yn cael tâl ar **gyfradd wastad, sef £250 y cynllun**. Nid oes terfyn uchaf o ran faint o arian y gellir ei hawlio, ond bydd Ffioedd Cyfuno GIS yn dod i ben ar 31 Mai 2008 ac nid oes cynlluniau gan CCC i dalu cyfraddau uwch am fapiau digidol ar ôl 31 Mai 2008.

Dylai pob Cynlluniwr fod wedi cael dogfen yn esbonio Ffioedd Cyfuno GIS. Gellir dod o hyd i hyn hefyd yn http://www.forestry.gov.uk/forestry/INFD-6VYLYH.

GLOS yn rhyddhau diweddariad

Cafodd GLOS (Gwasanaeth Ar-lein Grantiau a Thrwyddedau) ei lwyth gwybodaeth diweddaraf ar 11 Hydref. Roedd hyn yn cynnwys y ffwythiant plannu newydd, Rhif Cyflogres Cymdeithas Adeiladu, Caniatâd Landlordiaid a newidiadau i'r adroddiad contract, yn ogystal â sawl ffwythiant mewnol ar gyfer rheoli achosion y Comisiwn Coedwigaeth.

Erbyn hyn gellir cael mynediad at y gweithredoedd Plannu Newydd trwy'r Cynllun Rheoli a chaiff dogfen "Ymagwedd at" ei rhyddhau cyn bo hir. Mae ymgeiswyr sy'n defnyddio cymdeithas adeiladu, yn hytrach na banc, bellach yn gallu ychwanegu eu rhifau cyflogres – ni fyddai'r system yn derbyn rhifau cyflogres cymdeithas adeiladu o'r blaen. Erbyn hyn nid yw'r system yn gofyn am ganiatâd y Landlord pan fydd yr ymgeisydd yn ddeiliad prydles, ond bydd yn parhau i wneud hyn ar gyfer tenantiaid. Bu rhai mân newidiadau i adroddiad y contract, addurnol gan mwyaf.

Bu nifer o lwythi gwybodaeth dros yr ychydig o fisoedd diwethaf ac mae hyn wedi achosi llawer o amser segur sydd, yn ei dro, yn effeithio ar staff y Comisiwn Coedwigaeth a chynllunwyr sy'n mynd at y system. Rydyn ni wedi ceisio lleihau amlder y llwythi hyn. Bydd hyn yn sicrhau bod llwythi'n cael profion llawn cyn eu rhyddhau, gan arwain at lai o amser segur ar y cyfan. Ond bydd hyn yn golygu ei bod yn cymryd mwy o asmer i gywiro problemau llai. Byddwch yn amyneddgar pan sylwch ar ddiffygion sy'n ymddangos heb eu cywiro. Os dewch o hyd i ddiffyg gyda'r system adroddwch ef at Swyddfa Ardal Gogledd Cymru bww.ts@forestry.gsi.gov.uk. Os cewch faterion ynghylch y broses hon, yn lle diffygion, rhowch wybod I gynrychiolydd eich grŵp technegol er mwyn ei drafod yn y cyfarfod nesaf.

Fersiwn newydd o'r Cyfrifiannell GGC ar gael ar wefan CCC: http://www.forestry.gov.uk/forestry/infd-6lsfdc.

Cyfrifydd GGC

Lansiwyd fersiwn newydd Cyfrifydd GGC ar 1 Hydref fel a gynlluniwyd. Mae'n rhaid defnyddio'r fersiwn hon ar gyfer pob cynllun ar unrhyw adeg cyn cymeradwyo'r Cynllun Sylfaenol ar 1 Hydref 2007. Mae'n rhaid i unrhyw gynllun sydd wedi mynd heibio i'r cyfnod hwn ar 1 Hydref 2007 ddefnyddio fersiwn gynharach y Cyfrifydd. Ceisiwch gyngor oddi wrth Swyddogion Coetiroedd os nad ydych chi'n siŵr pa fersiwn i'w defnyddio.

Y prif newidiadau i'r cyfrifydd yw costau cynaeafu wedi'u diweddaru, gan adlewyrchu'r cynnydd mewn darnau coed, a chostau cymdeithasol newydd.

Ffurflenni cais y Cynllunwyr Rheoli a'r Aseswr Arbenigol

Mae CCC wedi gwneud rhai newidiadau i ffurflenni cais y Cynllunwyr Rheoli a'r Aseswyr Arbenigol i symleiddio'r broses o wneud cais i helpu ymgeiswyr newydd.

Bellach nid oes angen arnom y ffurflen mynegi diddordeb ac felly mae hon wedi'i thynnu ac mae unrhyw wybodaeth hanfodol wedi'i hymgorffori'n un ffurflen gais gyffredinol. Mae'r canllawiau a roddir i'r ymgeisydd i'w helpu i gwblhau'r gofynion tystiolaeth wedi'u newid ac rydyn ni wedi rhoi enghraifft. Yn olaf mae'r ffurflenni wedi'u hailrifo.

Nid oes newid yn y dystiolaeth sydd ei hangen, felly ni ddylai neb boeni ein bod yn ei gwneud yn haws nac yn anoddach i ddod yn Gynlluniwr Rheoli neu Aseswr Arbenigol. Ynghylch y ffurflenni cais yn unig mae'r newidiadau hyn.

Mae'r dogfennau cais diwygiedig hyn wedi'u cyhoeddi ar wefan Comisiwn Coedwigaeth Cymru ac maent bellach ar gael i'w defnyddio yn http://www.forestry.gov.uk/forestry/INFD-6YTG2F.

Gweinyddu CGC

Bellach Liz Hopkins fydd yn delio â gweinyddu'r Cynllun Grantiau Coetir ar draws Cymru yn ganolog yn y Tîm Cefnogi Gweithredoedd yn y Fenni. Gallwch gysylltu â Liz ar 0845 604 0845 neu e-bostiwch liz.hopkins@forestry.gsi.gov.uk os bydd gennych unrhyw ymholiadau.

Manylion cwsmeriaid

Fel rydych chi i gyd yn ymwybodol, erbyn hyn mae'n ofynnol cofrestru ar gyfer Rhif Cofrestru Cwsmer (CRN) fel rhan o broses cais CGG. Mae hyn yn golygu bod gwybodaeth yn cael ei datblygu mewn nifer o feysydd, sy'n arwain at faich gweinyddol mwy i chi a thebygrwydd uwch o gael gwybodaeth wahanol yn y ddwy system. Yn ychwanegol, mae ein Hasiantaeth Dalu wedi rhoi gwybod i ni fod rhaid rhoi pob tâl i'r buddiolwr, h.y. perchennog neu denant y tir (ac eithrio'r amryw daliadau cyfuno).

Ein nod yw gostwng y baich gweinyddol cymaint ag y bo modd a sicrhau bod y manylion yr un yn y ddwy system. I wneud hyn rydyn ni'n bwriadu mewnforio rhywfaint o'r data cwsmeriaid a gafwyd fel rhan o broses cofrestru'r CRN i CGG.

Nes i ni sefydlu'r broses hon, allwch chi sicrhau wrth lenwi'r ffurflen gofrestru ar gyfer CRN bod eich manylion yn cyfateb i'r manylion a roddoch chi i CGG. Yn arbennig mae angen i'r manylion BACS gyfateb, a manylion y cwsmer hefyd.

Cynlluniau Rheoli

Cynlluniwr	Cynlluniau wedi'u cymeradwyo
Evelyn Over	11
Graham Heath	9
Julian Miller	7
John Jeremy	6
Alison Ginn	5
Carl Bridges	6
Richard Godefroy	5
Hugh Wheeldon	5
Simon Ayres	4
Alison Wheeler	4
John Ferguson	4
Neil Scott	4
Chris Radford	3
Joe Fielding	3
Mat Ridley	3
Arthur Wiggins	2
Iain Peddie	2
John Lees	2
Richard Curtis	2
Rob Marsh	2
Martin Jones	1
Phil Davies	1
Phil Webb	1
Sonia Jones	1
Cyfanswm	**93**

Cyhoeddiadau Grantiau a Thrwyddedau newydd a diwygiedig

Lefel 1 – Dogfennau **'Ymagwedd at'** yn esbonio fframwaith CGG.
Lefel 2 – Dogfennau **Canllawiau grant** yn esbonio pa grantiau sydd ar gael.
Lefel 3 – Dogfennau **'Sut i'** yn rhoi hyfforddiant a chanllawiau ar sut i wneud rhywbeth
Lefel 4 – **Rheolau busnes** yn rhoi manylion penodol iawn am reolau.
Lefel 5 – **Templedi a ffurflenni** yw'r union ddogfennau a ddefnyddir i wneud rhywbeth yn ymarferol e.e. paratoi asesiad arbenigwr.
Lefel 6 –**Deunydd cyhoeddusrwydd**.

Lefel	Enw	Statws
6	Manylion y Panel Dethol	
5	Canllaw PAWS **SA08**	Diwygiedig
6	Rhestr Cynllunwyr Rheoli Cymeradwyedig	Diwygiedig
6	Siart Strwythur Grantiau a Thrwyddedau	Diwygiedig
6	Diagram statws CGG	Newydd
6	Cyfrifydd Costau GGC	Diwygiedig
5	Templed Adroddiad Cyfrif Ar Werth	Newydd
6	Ffurflenni Cais a Dogfennau Cyfarwyddyd Cynlluniwr Rheoli (A1 – A7)	Diwygiedig

Cyhoeddiadau newydd gan Ymchwil Coedwig

Cod	Enw
Hysbysiad Gwybodaeth (FCIN086)	Rôl adnoddau genetig coedwigoedd wrth helpu coedwigoedd Prydain i ymateb i newid yn yr hinsawdd
Hysbysiad Gwybodaeth (FCIN087)	Gwydnwch conwydd ifanc i ddifrod bwydo gan widdon penwydd
Hysbysiad Gwybodaeth (FCIN088)	Deng mlynedd o fonitro dwys yng nghoedwigoedd Prydain
Canllaw Ymarfer (FCPG018)	Codi coed a phrysglwyni o hadau
Hysbysiad Ymarfer (FCPN4 Diwygiedig)	Rheoli niwed i goetiroedd gan wiwerod llwydion
Nodyn Cyfarwyddyd Gweithredol (CGB1)	Rheolaeth Diogelwch Coed (Diwygiedig)
Nodyn Cyfarwyddyd Gweithredol (CGB00)	Elfennau Gorfodol yr 'OGB's'

Am fwy o wybodaeth, gweler dolenni Cyhoeddiadau yn www.forestresearch.gov.uk/peopleandtrees

Manylion cyswllt

- Ymholiadau cyffredinol CGG: Ffôn 0845 604 0845 neu mewngofnodwch i www.forestry.gov.uk
- Ymholiadau technegol: E-bost bww.ts@forestry.gsi.gov.uk
- Gwasanaeth Ar-Lein Grantiau a Thrwyddedau: Dolen www.eforestry.gov.uk
- Ymholiadau Cyfrifydd Cost GGC: E-bost wig.costings@forestry.gsi.gov.uk
- Awgrymiadau ar gyfer materion yn y dyfodol: E-bost Sam.davies@forestry.gsi.gov.uk
- Cylchlythyr Perchnogion CGG: Dolen http://www.forestry.gov.uk/forestry/infd-6tsj8s

Newyddlen gyfredol a hen rifynnau ar gael ar wefan Comisiwn Coedwigaeth Cymru
www.forestry.gov.uk

Dyddiadau rhifynnau:

Cylchlythyr Technegol CGG	Cylchlythyr Perchnogion CGG
▪ Rhifyn 11 – 14 Rhagfyr 2007 ▪ Rhifyn 12 – 29 Chwefror 2008	▪ Rhifyn 2 – Rhagfyr 2007 ▪ Rhifyn 3 – Gorffennaf 2008

Mae'r rhifyn cyfredol a hen rifynnau ar gael ar wefan Comisiwn Coedwigaeth Cymru www.forestry.gov.uk

Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales